Rhif: WG39061

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ffurflenni Ad-dalu Fferylliaeth Gymunedol ar gyfer Cyffuriau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion ar gyfer nifer o newidiadau i sut mae'n ad-dalu contractwyr fferylliaeth gymunedol yng Nghymru am y cyffuriau a weinyddant yn erbyn presgripsiynau'r GIG. |
| **Sut i ymateb** | Defnyddiwch yr holiadur yng nghefn y ddogfen hon. Gellir e-bostio neu bostio'r holiadur i'r cyfeiriadau isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael ar gais.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad:<br><br>Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu<br>Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>4ydd Llawr y Dwyrain G08<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost:<br>Pharmacyand.PrescribingBranch@gov.wales |

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2019
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2019

## Y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- Yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld;
- Yr hawl i ofyn inni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny;
- Yr hawl i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar eu defnyddio;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i fynnu bod eich data yn cael eu 'dileu';
- Yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth :
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | 3 |
| 1. Manylion yr ymgynghoriad<br>• Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?<br>• Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn? | 5<br>5<br>5-6 |
| 2. Cyflwyniad<br>• Arferion presgripsiynu | 6<br>6 |
| • Presgripsiynu generig | 6 |
| • Ad-dalu contractwyr fferylliaeth | 7 |
| • Y gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu | 7-8 |
| • Y Tariff Cyffuriau | 8 |
| • Ad-dalu cost meddyginiaeth drwyddedig | 8 |
| • Ad-dalu cost meddyginiaethau didrwydded ('meddyginiaethau arbennig') | 8-9 |
| • Ad-dalu cost cyffuriau eraill (cyffuriau nad ydynt yn feddyginiaethau trwyddedig nac yn feddyginiaethau didrwydded) | 9 |
| • Graddfa didynnu | 9 |
| 3. Y Sail Resymegol ar gyfer Newid | 9 |
| • Gwerth am arian | 9-10 |
| 4. Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu ar gyfer meddyginiaethau generig yng Nghategori A | 10 |
| 5. Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu ar gyfer meddyginiaethau generig yng Nghategori M | 11 |
| 6. Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu meddyginiaethau yng Nghategori C sy'n cael eu presgripsiynu'n generig ond sydd â chyflenwyr lluosog | 12 |
| 7. Cynnwys cyffuriau (ac eithrio meddyginiaethau trwyddedig a meddyginiaethau didrwydded) â phris ad-dalu yn Rhan VIII | 13 |
| 8. Newidiadau i'r broses o bennu prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIA | 14 |
| 9. Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer ad-dalu a chaffael meddyginiaethau didrwydded ('meddyginiaethau arbennig') | 15-16 |
| 10. Newidiadau i ad-dalu costau cyfarpar a chyffuriau sydd wedi'u presgripsiynu'n generig a'u gweinyddu fel cyfarpar a chyffuriau 'arbennig' | 16-17 |
| 11. Newidiadau i'r raddfa didynnu i adlewyrchu lefelau disgownt gwahanol ar gyfer meddyginiaeth brand a meddyginiaeth generig | 17-18 |
| 12. Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad | 19-23 |

## 1. Manylion yr ymgynghoriad

### Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

1.1 Mae contractwyr fferylliaeth yn fusnesau preifat sy’n darparu gwasanaethau fferyllol y GIG o dan y fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol (CPCF). Prif wasanaeth fferyllol y GIG sy'n cael ei ddarparu gan gontractwyr fferylliaeth yw gweinyddu presgripsiynau’r GIG. Mae cyllid CPCF yn cael ei ddarparu trwy ffioedd a lwfansau sy’n cael eu talu i gontractwyr fferylliaeth a thrwy’r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a’r pris ad-dalu. Mae’r swm hwn yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng y pris y mae’r contractwr fferylliaeth yn ei dalu am y feddyginiaeth, a’r swm sy’n cael ei ad-dalu iddo gan y GIG am weinyddu’r cynnyrch yn erbyn presgripsiwn y GIG.

1.2 Mae’r trefniadau talu ar gyfer contractwyr fferylliaeth wedi’u cyflwyno mewn cyhoeddiad o’r enw **Tariff Cyffuriau.** Am resymau hanesyddol, cyfeirir at y ffioedd a’r lwfansau sy’n cael eu talu i gontractwyr fferylliaeth am y gwasanaethau a ddarparant o dan CPCF, fel y ffi gweithgaredd sengl (sy’n ymwneud â chost gweinyddu yn rhannol) fel "ad-dalu". Nid oes unrhyw un o’r cynigion sy’n destun ymgynghori yn ymwneud â “thaliadau” am wasanaethau. Yn hytrach, mae pob un ohonynt yn ymwneud â’r hyn y cyfeirir ato, am resymau hanesyddol, fel “ad-dalu”.

1.3 Hefyd, mae’r Tariff Cyffuriau yn nodi’r trefniadau “ad-dalu” ar gyfer cynhyrchion sy’n cael eu gweinyddu fel rhan o wasanaethau fferyllol y GIG. Y gost “ad-dalu” allweddol yw’r swm sy’n cael ei dalu i gontractwyr fferylliaeth gan y GIG am y cyffuriau, y cyfarpar a’r cynhyrchion eraill a weinyddant. Cyfeirir at hyn fel y “pris ad-dalu”.

### Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

1.4 Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU wedi ymgynghori yn ddiweddar ar y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon. Er bod ad-daliadau’r CPCF yn gallu bod yn wahanol ar hyn o bryd, nid oes gwahaniaeth rhwng y trefniadau i ad-dalu contractwyr fferylliaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae rhesymau da am hyn: mae Cymru a Lloegr yn defnyddio’r un gadwyn gyflenwi; mae contractwyr fferylliaeth yn berchen ar fferyllfeydd yn y ddwy wlad yn aml; ac mae llawer o gleifion yn defnyddio fferyllfeydd ar ddwy ochr y ffin, yn enwedig cleifion sy’n byw yn ardaloedd dwyreiniol Cymru. Hefyd, mae datblygu trefniadau cyffredin â Lloegr yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a chontractwyr fferylliaeth ynglŷn â lefelau prisiau meddyginiaethau sy’n cael eu darparu trwy CPCF.

1.5 Yn debyg i’r DHSC, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y trefniadau ad-dalu presennol yn gweithio’n dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae modd gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â’r egwyddorion canlynol, i’r graddau sy’n ymarferol bosibl:

- mae’r trefniadau yn eu cyfanrwydd yn darparu gwerth am arian i’r GIG ac i drethdalwyr;
- mae gan bob contractwr fferylliaeth fynediad cyfartal i’r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a’r pris ad-dalu;

- mae prisiau ad-dalu yn adlewyrchu prisiau'r farchnad yn well er mwyn gwella llif arian parod contractwyr fferylliaeth;
- nid yw ychwanegu'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu at brisiau ad-dalu yn gwneud i feddyginiaethau ymddangos yn ddrutach nac yn dylanwadu ar batrymau presgripsiynu.

1.6 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnig cynigion amrywiol i wella'r trefniadau ad-dalu presennol ac, os yw'n briodol, sicrhau bod cysondeb rhwng Cymru a Lloegr yn parhau.

## 2. Cyflwyniad – Beth yw'r sefyllfa bresennol?

### Arferion presgripsiynu

2.1 Gall y rhai sy'n ysgrifennu presgripsiwn nodi brand meddyginiaeth (h.y. enw perchnogol) neu'r enw generig (h.y. enw'r cynhwysyn fferyllol actif cymeradwy a chofrestredig). Os yw'r enw generig wedi'i ysgrifennu ar y presgripsiwn, gall y fferyllydd weinyddu unrhyw fersiwn o'r cynnyrch â'r enw generig, ond fel arfer bydd yn gweinyddu fersiwn o'r cynnyrch sydd wedi'i labelu â'r enw generig ac nid ag enw brand. Y disgrifiad llaw fer ar gyfer cynnyrch o'r fath yw "meddyginiaeth generig".

2.2 Y presgripsiynydd sy'n penderfynu a yw'n presgripsiynu ar sail brand neu'n generig. Fodd bynnag, anogir presgripsiynu yn generig os yw'n briodol gwneud hynny o safbwynt clinigol. Mae dros 80% o feddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu yn y sector gofal sylfaenol yng Nghymru yn cael eu presgripsiynu mewn ffordd generig.

### Presgripsiynu generig

2.3 Mae rhesymau da i gefnogi presgripsiynu generig. Hyd yn oed os mai dim ond un brand sydd ar gael ar y farchnad, mae presgripsiynu generig yn helpu'r presgripsiynydd i ddeall y driniaeth sy'n cael ei gweinyddu a natur y cynnyrch sy'n cael ei bresgripsiynu. Mae'n tueddu i roi rhagor o sicrwydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol am drefn driniaeth claf sydd, er enghraifft, yn symud i ddarparwr gofal gwahanol ar ôl cael ei ryddhau o'r ysbyty. Hefyd, mae presgripsiynu generig yn tueddu i atgoffa clinigwyr am effaith therapiwtig y cyffur, sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o bresgripsiynu cyffur sy'n cael effaith debyg – gan ddyblygu'r effaith yn anfwriadol – neu bresgripsiynu ail feddyginiaeth sy'n anghydnaws â'r feddyginiaeth gyntaf.

2.4 Os yw'r broses o bresgripsiynu generig yn cael ei sefydlu tra bod cynhwysyn fferyllol actif yn destun patent, mae'n haws i gynhyrchion cystadleuol gael eu lansio pan na fydd y cynnyrch yn destun cynnyrch – sydd â mantais amlwg o safbwynt lleihau'r costau sy'n cael eu talu gan y GIG am y cyffur dan sylw. Felly, mae rhesymau clinigol ac ariannol am gefnogi presgripsiynu generig.

### Ad-dalu contractwyr fferylliaeth

2.5 O ystyried bod dros 75 miliwn o eitemau presgripsiwn yn cael eu had-dalu bob blwyddyn o dan y CPCF yng Nghymru, nid yw'n ymarferol ad-dalu'r union swm a dalodd fferyllfa gymunedol i brynu pob cynnyrch a weinyddwyd ar bresgripsiwn y GIG. Felly, ar lefel eitem presgripsiwn unigol, mae'n bosibl weithiau y bydd fferyllfeydd cymunedol yn

derbyn llai o dâl na'r hyn y gwnaethon nhw ei dalu am y cynnyrch. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol, oherwydd system y gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu, ar gyfartaledd, mae'r trefniadau ad-dalu yn talu am gost y cynnyrch a'r gwahaniaeth targed (gweler isod), sy'n golygu y dylai gweinyddu yn y GIG fod yn weithgaredd proffidiol yn gyffredinol.

2.6 Mae hyn yn annog fferyllfeydd cymunedol i stocio meddyginiaethau amrywiol fel y gallant gyflenwi presgripsiynau'r GIG ar gyfer cleifion yn ddi-oed. Hefyd, mae'r system gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu yn hyrwyddo arferion caffael effeithlon gan fferyllfeydd cymunedol, gan sicrhau gwerth am arian i'r GIG. Y rheswm am hyn yw'r ffaith fod y gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu yn cael ei gyfrifo ar sail prisiau cyfartalog, sy'n golygu bod fferyllfeydd cymunedol sy'n sicrhau disgownt uwch na'r cyfartaledd yn derbyn cyfran fwy o'r elw.

2.7 Mae'r system hon yn sicrhau bod y GIG yn cael y fargen orau i drethdalwyr a bod fferyllfeydd cymunedol yn cael eu gwobrwyo am eu gwasanaethau.

**Gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu**

2.8 O dan y trefniadau ad-dalu am gynhyrchion sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae contractwyr fferylliaeth yn cael eu hannog i brynu cynhyrchion mor rhad â phosibl er mwyn ceisio gwneud cymaint o elw â phosibl. Mae arolwg o'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu a gwblheir gan Bwyllgor Negodi'r Gwasanaethau Fferyllol (PSNC) yn Lloegr yn arolwg blynyddol treigl sy'n ceisio mesur cyfanswm y gwahaniaeth yn y pris i gontractwyr fferylliaeth yn Lloegr. Os yw'r arolwg hwn yn canfod bod perfformiad yn erbyn y cyfanswm blynyddol presennol y cytunir arno (£800 miliwn) yn rhy isel neu'n rhy uchel, mae prisiau ad-dalu yn cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaeth. Mae'r arolwg o'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu yn Lloegr yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru i sicrhau gwahaniaeth yn y pris cymesur a chyfwerth ar gyfer fferyllfeydd yng Nghymru.

2.9 Mae rhai cyflenwyr a chynhyrchwyr meddyginiaethau brand, gan gynnwys meddyginiaethau generig wedi'u brandio, yn gosod pris am eu cynnyrch sy'n is na'r pris ad-dalu Categori M. Mae hyn yn gallu ystumio penderfyniadau presgripsiynu gan fod y fersiwn brand yn ymddangos yn rhatach, sy'n annog byrddau iechyd lleol a phresgripsiynwyr i bresgripsiynu'r cynnyrch ar sail brand yn hytrach na mewn ffordd generig. Dyma enghraifft syml o sut y gallai hyn weithio yn ymarferol: pan fydd meddyg teulu yn presgripsiynu meddyginiaeth, fel arfer bydd y feddalwedd y mae'n ei defnyddio yn ei hysbysu am bris ad-dalu Tariff Cyffuriau'r feddyginiaeth. Hefyd, fel arfer bydd yn ei hysbysu am fersiynau brand y feddyginiaeth sydd ar gael, a'u prisiau. Felly, mae'n bosibl y bydd y meddyg teulu yn meddwl bod fersiwn brand yn rhoi gwerth da i'r GIG oherwydd bod ei bris a restrir yn is o lawer na phris ad-dalu'r Tariff Cyffuriau.

2.10 Fodd bynnag, yn ymarferol, gall y feddyginiaeth brand fod yn ddrutach i'r GIG gan nad yw'n cyfrannu at y gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu o dan y CPCF (neu ei bod yn gwneud cyfraniad bach iawn). Yn ei dro, mae hyn yn arwain at ddiffyg yn y gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu y bydd angen ei gynnwys yn rhywle arall ym mhrisiau ad-daliadau (h.y. bydd pris rhai meddyginiaethau yn cynyddu). Hefyd, mae hyn yn arwain at ddosbarthiad anghyfartal o safbwynt gwahaniaeth yn y pris ymysg contractwyr fferylliaeth, ac mae'n golygu y bydd

y GIG yn gyffredinol yn colli arian oherwydd y bydd angen codi rhai prisiau ad-dalu, gan niweidio'r holl fyrddau iechyd yn gyffredinol.

**Y Tariff Cyffuriau**

2.11 Mae'r Tariff Cyffuriau yn pennu'r ffioedd a'r lwfansau sydd i'w talu i gontractwyr fferylliaeth ar gyfer gwasanaethau a ddarparant o dan y CPCF. Hefyd, mae'r Tariff Cyffuriau yn pennu'r trefniadau "ad-dalu" ar gyfer cynhyrchion h.y. y prisiau sy'n cael eu talu i gontractwyr fferylliaeth ar gyfer y cyffuriau, y cyfarpar a'r cynhyrchion eraill sy'n cael eu gweinyddu ganddynt. Mae'r pris i'w ad-dalu wedi'i restru yn y Tariff Cyffuriau ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion sy'n cael eu gweinyddu, ond os nad oes pris wedi'i restru, mae'r Tariff Cyffuriau yn nodi sut mae'r pris i'w ad-dalu yn cael ei benderfynu.

**Ad-dalu cost meddyginiaethau trwyddedig**

2.12 Fel y nodwyd uchod, os oes meddyginiaeth yn cael ei phresgripsiynu ar sail enw brand, mae'n rhaid i gontractwr fferylliaeth weinyddu fersiwn brand perthnasol y cynnyrch. Yn amodol ar eithriadau cyfyngedig, bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ad-dalu cost y feddyginiaeth i gontractwr fferylliaeth sy'n ei gweinyddu yng Nghymru trwy gyfeirio at y pris ar y rhestr ar gyfer meddyginiaeth y gwneuthurwr, y cyfanwerthwr neu'r cyflenwr a ddefnyddiwyd gan y contractwr gweinyddu (Rhan II, Cymal 8, o'r Tariff Cyffuriau).

2.13 Os oes meddyginiaeth yn cael ei phresgripsiynu yn generig a'i bod wedi'i rhestru yn Rhan VIIIA o'r Tariff Cyffuriau, bydd y contractwr fferylliaeth yn derbyn ad-daliad amdani yn ôl y pris a restrir yn Rhan VIIIA. Yn gyffredinol, mae tri chategori o gyffuriau wedi'u rhestru yn Rhan VIIIA o'r Tariff Cyffuriau, sef categorïau A, C ac M.

2.14 Fel arfer, nid yw cynhyrchion Categori C ar gael fel cynhyrchion generig. Mae prisiau ad-dalu Categori C yn seiliedig ar bris cynnyrch penodol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr yn penderfynu'r pris ad-dalu ar sail y pris a restrir gan y gwneuthurwr neu'r cyflenwr (waeth a yw'n gynnyrch perchnogol neu'n ddi-batent) ar yr 8fed o'r mis pan wneir yr ad-daliad, neu cyn hynny.

2.15 Mae'n rhaid i'r feddyginiaeth fod ar gael yn gyffredinol i gael ei chynnwys yng Nghategori A neu M. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr (ar ôl ymgynghori â'r PSNC) sy'n penderfynu a ddylid newid cynnyrch o Gategori C i Gategori A neu M.

**Ad-dalu cost meddyginiaethau didrwydded ('meddyginiaethau arbennig')**

2.16 Mae'r meddyginiaethau arbennig sy'n cael eu presgripsiynu'n rheolaidd, ynghyd â'u pris ad-dalu, wedi'u rhestru yn Rhan VIIIB o'r Tariff Cyffuriau. Mae prisiau ad-dalu yn seiliedig ar wybodaeth chwarterol gan gyflenwyr o dan Reoliadau Cynhyrchion y Gwasanaeth Iechyd (Darparu a Datgelu Gwybodaeth) 2018 a, hyd at 31 Gorffennaf 2019, o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Meddyginiaethau Arbennig rhai gwneuthurwyr. Bydd meddyginiaethau arbennig yn cael eu cynnwys yn Rhan VIIIB o'r Tariff Cyffuriau os ydynt yn bodloni'r gofynion gwariant a/neu symiau sylfaenol.

2.17 Mae cost unrhyw feddyginiaeth arbennig nad yw wedi'i rhestru yn Rhan VIIIB o'r Tariff Cyffuriau yn cael ei had-dalu fel rhan o bris yr anfoneb (llai unrhyw ddisgownt neu ad-daliad).

**Ad-dalu cost cyffuriau eraill (nad ydynt yn feddyginiaethau trwyddedig nac yn feddyginiaethau didrwydded)**

2.18 Dyma'r cynhyrchion nad ydynt yn feddyginiaethau ond sy'n cael eu trin fel "cyffuriau" a'u presgripsiynu at ddibenion meddygol, fel bwydydd meddygol, atchwanegiadau bwyd sydd ar gael yn fasnachol, a rhai cynhyrchion dermatoleg.

2.19 Mae rhai o'r cynhyrchion hyn, ynghyd â'u pris ad-dalu, wedi'u cynnwys yng Nghategori A neu C o'r Tariff Cyffuriau. Mae cost cyffuriau fel hyn nad ydynt wedi'u rhestru gyda phris ad-dalu yn Rhan VIII o'r Tariff Cyffuriau yn cael ei had-dalu o dan y trefniadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIII, h.y. y pris ad-dalu yw pris rhestr y gwneuthurwr, y cyfanwerthwr neu'r cyflenwr a ddefnyddiodd y contractwr gweinyddu.

**Graddfa didynnu**

2.20 Mae contractwyr fferylliaeth yn derbyn ôl-daliadau misol am yr eitemau y maent wedi'u gweinyddu yn ystod y mis. Bob mis didynnir swm o'u taliadau ar sail yr hyn y cyfeirir ati fel "graddfa didynnu". Swm tybiedig o ddisgownt yw hwn sy'n cael ei dderbyn i osgoi'r angen i gontractwyr fferylliaeth orfod cyfrifo a datgan disgownt a dderbyniwyd ar bob eitem sydd wedi'i gweinyddu.

2.21 Ar hyn o bryd, mae'r raddfa didynnu yn seiliedig ar gyfanswm misol prisiau ad-dalu, a didynnir isafswm o 5.65% ac uchafswm o 11.5% o gyfanswm yr ad-daliad misol.

## 3. Y Sail Resymegol ar gyfer Newid

3.1 Yn gyffredinol, mae'r trefniadau sy'n cael eu disgrifio uchod i ad-dalu contractwyr fferylliaeth yn gweithio'n dda, ond fel y DHSC, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod modd gwneud rhai gwelliannau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion canlynol, i'r graddau sy'n ymarferol bosibl:

- mae'r trefniadau yn eu cyfanrwydd yn darparu gwerth am arian i'r GIG ac i drethdalwyr;
- mae prisiau ad-dalu yn adlewyrchu prisiau'r farchnad yn well er mwyn gwella llif arian parod contractwyr fferylliaeth;
- mae gan bob contractwr fferylliaeth fynediad cyfartal i wahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu;
- nid yw ychwanegu gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu at brisiau ad-dalu yn gwneud i feddyginiaethau ymddangos yn ddrutach nac yn dylanwadu ar batrymau presgripsiynu.

**Gwerth am arian**

3.2 Mae'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu yn helpu'r GIG i sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr trwy annog contractwyr fferylliaeth i ddod o hyd i'r cynhyrchion rhataf posibl. Mae hyn yn creu cystadleuaeth ac yn rhoi pwysau ar i lawr ar

brisiau gwerthu, sy'n lleihau prisiau ad-dalu ar gyfer y GIG. Fodd bynnag, ar gyfer meddyginiaethau nad ydynt wedi'u rhestru yn y Tariff Cyffuriau ac nad oes ganddynt bris ad-dalu, nid yw'n ymddangos bod y cymhelliad hwn mor effeithiol, gan fod contractwyr fferylliaeth yn derbyn ad-daliad ar sail cost wirioneddol y feddyginiaeth sy'n cael ei chymeradwyo ganddynt ar y presgripsiwn. O ganlyniad, nid oes unrhyw gymhelliad i gontractwyr fferylliaeth geisio prynu'r cynhyrchion hyn am y pris isaf posibl.

3.3 Mae'r DHSC yn ystyried nifer o ddewisiadau i fynd i'r afael â'r diffyg cymhelliad i brynu cynhyrchion am y pris isaf posibl, gan gynnwys:

- Ychwanegu mwy o'r cynhyrchion hyn at y Tariff Cyffuriau, lle bo hynny'n bosibl;
- Os nad yw'n ymarferol gwneud hyn, dylid cyflwyno rheolau eraill er mwyn sicrhau bod prisiau ad-dalu'r cynhyrchion hyn yn cynrychioli'r farchnad yn well, gan gyflwyno cymhellion i hyrwyddo arferion prynu gwell gan gontractwyr fferylliaeth;
- Ar gyfer meddyginiaethau arbennig a meddyginiaethau didrwydded nad ydynt wedi'u rhestru yn y Tariff Cyffuriau, dylid ystyried dulliau amgen i ddulliau'r Tariff Cyffuriau arferol er mwyn cymell arferion prynu gwell.
  Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn briodol ystyried sut mae'r materion hyn yn cael eu hystyried yng Nghymru, gan gadw'r hyn sy'n gweithio'n dda ac osgoi cyflwyno baich gweinyddol ychwanegol i'r GIG.

3.4 Ar gyfer cynhyrchion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Tariff Cyffuriau, cydnabyddir bod y cymhellion sydd eisoes yn bodoli yn fwy tebygol o fod yn effeithiol os yw'r prisiau ad-dalu a restrir yn y Tariff Cyffuriau yn adlewyrchu prisiau gwerthu/prynu gwirioneddol y farchnad. O ganlyniad, rydym yn awyddus i ymgynghori ar nifer o fesurau sy'n ceisio newid y fethodoleg ar gyfer pennu prisiau ad-dalu a restrir er mwyn defnyddio data'r farchnad yn well.

## 4. <u>Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu ar gyfer meddyginiaethau generig yng Nghategori A</u>

4.1 Nid yw'r rhestrau prisiau gweithgynhyrchwyr a chyfanwerthwyr yn adlewyrchu prisiau gwerthu gwirioneddol ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiadau ac ad-daliadau a roddir i gontractwyr fferyllfeydd gan y gwneuthurwyr a'r cyfanwerthwyr. Oherwydd hyn, nid yw prisiau ad-dalu am feddyginiaethau generig yng Nghategori A yn adlewyrchu prisiau gwerthu/prynu. Mewn rhai achosion, rydym wedi gweld prisiau ad-dalu yn y Tariff Cyffuriau sy'n ddeg gwaith y pris a dalodd contractwr y fferyllfa am y feddyginiaeth.

4.2 Rydym yn ffafrio dewis sy'n pennu prisiau ad-dalu mewn ffordd sy'n gywir ac yn adlewyrchu'r farchnad i'r graddau posibl. Bydd hyn yn lleihau'r angen am addasiadau dilynol i gywiro diwygiadau ad-dalu contractwyr fferylliaeth sy'n uwch neu'n llai na'r gwahaniaeth rhwng y pris prynu a'r pris ad-dalu, ac yn gwella llif arian parod ar gyfer contractwyr fferylliaeth.

**Ein cynnig**

- Rydym yn cynnig ein bod yn defnyddio gwybodaeth wirioneddol am brynu, gwerthu a chyfaint a geir yn barod yn y casgliad chwarterol o dan Reoliadau Cynhyrchion y Gwasanaeth Iechyd (Darparu a Datgelu Gwybodaeth) 2018 i bennu prisiau ad-dalu Categori A. Byddai hyn yn sicrhau bod prisiau ad-dalu yn adlewyrchu prisiau gwerthu yn well. Byddai'r prisiau ad-dalu a fyddai'n cael eu gosod yn cynnwys elw ar feddyginiaethau i ganiatáu i gontractwyr fferyllfeydd ennill elw ar feddyginiaethau i'r meddyginiaethau generig Categori A y maent yn eu dosbarthu.

- Os aiff y cynnig hwn yn ei flaen, yr ydym yn rhagweld, yn wahanol i'r elw ar feddyginiaethau i feddyginiaethau Categori M, na fyddai'r elw ar feddyginiaethau i feddyginiaethau Categori A yn cael ei haddasu i gyflawni'r swm blynyddol o elw ar feddyginiaethau o dan CPCF (£800 miliwn yn Lloegr).

4.3 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir ar y cynnig hwn, pe bai'n bwrw ymlaen, byddem yn ymgynghori gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg ar gyfer cyfrifo prisiau ad-dalu Categori A gan ddefnyddio gwybodaeth chwarterol a geir o dan Rheoliadau Cynhyrchion Y Gwasanaeth Iechyd (Darparu a Datgelu Gwybodaeth) 2018. Byddai trefniadau trosiannol, h.y. cyflwyno prisiau ad-dalu Categori A yn raddol yn seiliedig ar bris gwerthu gwirioneddol, hefyd yn rhan o'r drafodaeth gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru.

## 5. Newidiadau i ddosbarthiad elw ar feddyginiaethau wedi'u hychwanegu at feddyginiaethau generig yn Nghategori M

5.1 Os yw meddyginiaeth wedi'i phresgripsiynu'n generig a'i bod wedi'i rhestru yn Rhan VIIIA o'r Tariff Cyffuriau, bydd y GIG yn ad-dalu'r gost i gontractwr fferylliaeth yng Nghymru ar sail y pris a restrir yn Rhan VIIIA. Fel yr eglurwyd uchod, mae tri Chategori o gyffuriau wedi'u rhestru yn Rhan VIIIA o'r Tariff Cyffuriau, sef Categori A, C ac M. Yn gyffredinol, nid yw cynhyrchion Categori C ar gael yn generig.

5.2 Mewn ambell achos, mae fersiynau wedi'u brandio o feddyginiaethau generig (a elwir yn "feddyginiaethau generig wedi'u brandio") ar gael sydd â phrisiau llai na phris ad-dalu Categori M. Os cânt eu rhagnodi gan enw brand, ad-delir y rhain o dan drefniadau heblaw Rhan VIII. Yn wahanol i brisiau ad-dalu categori M, nid yw prisiau brandio generig yn cael eu haddasu i'r feddyginiaeth ac o ganlyniad gallent ymddangos yn rhatach na'r feddyginiaeth generig gyfatebol yng Nghategori M. Gall hyn annog byrddau iechyd lleol i ragnodi'r fersiwn wedi'i brandio yn hytrach na generig er y gallai fod yn ddrytach i'r GIG yn gyffredinol.

### Problem y trefniadau presennol

5.3 Credwn y byddai ychwanegu llai o elw ar feddyginiaethau at y meddyginiaethau generig hynny y mae meddyginiaethau â brand cyfwerth ar gael ar eu cyfer, ac ychwanegu mwy o elw ar feddyginiaethau at yr holl feddyginiaethau Categori M eraill, yn helpu i fynd i'r afael a'r broblem hon.

**Ein cynnig**

Newid i ddosbarthu elw ar feddyginiaethau wedi'i ychwanegu at feddyginiaethau generig yng Nghategori M i sicrhau nad yw'r feddyginiaeth generig yn ymddangos yn ddrutach na'r fersiwn wedi'i brandio a bod y pris ad-dalu yn adlewyrchu'r pris prynu go iawn yn well.

Newid y raddfa ddidynnu i'w rhannu'n ddwy raddfa ar wahân, y naill ar gyfer meddyginiaethau generig a'r llall ar gyfer meddyginiaethau wedi'u brandio.

**Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru**

5.4 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynnig hwn, byddwn yn ymgynghori gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifo'r elw ar feddyginiaethau a ychwanegir at feddyginiaethau generig yng Nghategori M er mwyn gweithredu'r egwyddor a amlinellir uchod.

## 6. Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu meddyginiaethau yng Nghategori C sy'n cael eu presgripsiynu'n generig ond sydd â chyflenwyr lluosog

6.1 Os yw cynnyrch Categori C yn cael ei bresgripsiynu'n generig ond bod mwy nag un fersiwn o'r cynnyrch ar gael, mae'n bosibl y bydd disgownt ar gael i gontractwyr fferylliaeth hefyd. Mae hyn yn golygu na fydd y prisiau ad-dalu presennol ar gyfer meddyginiaethau sy'n wynebu cystadleuaeth yng Nghategori C yn adlewyrchu prisiau gwerthu/prynu gwirioneddol, ac o ganlyniad byddant yn cyfrannu at broblemau llif arian.

6.2 O ganlyniad, bydd y pris ad-dalu a restrir yn y Tariff Cyffuriau yn rhy uchel, gan ei fod yn ystyried y farchnad yn gyffredinol. O ganlyniad, mae'r GIG yn talu mwy nag y dylai am feddyginiaethau Categori C yn gyffredinol, a meddyginiaethau brand yn benodol, os oes cystadleuaeth.

**Ein cynnig**

I fynd i'r afael â'r broblem a amlinellir uchod, rydym yn cynnig dau ddewis ar gyfer cynhyrchion sydd wedi'u presgripsiynu'n gyffredinol yng Nghategori C.

**Dewis 1** – O dan ddewis un, ar gyfer meddyginiaethau brand yng Nghategori C â chyflenwyr lluosog, byddem yn pennu'r pris ad-dalu trwy ddefnyddio cyfartaledd wedi'i bwysoli o brisiau rhestr y cyflenwyr perthnasol fel y'i cyhoeddir yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d, gweler yr esboniad ym Mhennod 2), wedi'i addasu ar sail cyfaint presgripsiynu, yn hytrach na phris rhestr y cyflenwr. Byddai'r fasged prisiau yn adlewyrchu'r cynhyrchion yn dm+d a allai fod wedi'u cyflenwi i roi presgripsiwn generig ar gyfer y cynnyrch perthnasol.

**Dewis 2** – Ar gyfer meddyginiaethau brand yng Nghategori C â chyflenwyr lluosog, byddem yn pennu'r pris ad-dalu trwy ddefnyddio data gwerthu a chyfaint gwirioneddol gan gyflenwyr. O ganlyniad, byddai angen cynnwys y meddyginiaethau hyn wrth gasglu gwybodaeth am werthu a phrynu gan wneuthurwyr a chyfanwerthwyr bob chwarter, yn y lle cyntaf fel cais ad-hoc bob chwarter o dan Ran Pedwar o Reoliadau Cynhyrchion y Gwasanaeth Iechyd (Darparu a Datgelu Gwybodaeth) 2018. Fodd bynnag, wedyn byddem yn ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau i gynnwys y meddyginiaethau hyn mewn trefniadau casglu bob chwarter yn debyg i'r trefniadau o dan Ran Tri o'r Rheoliadau.

**Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru**

6.3 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynnig hwn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifyddu prisiau ad-dalu Rhan VIIIA ar gyfer meddyginiaethau Categori C â sawl cyflenwr yn ogystal ag unrhyw drefniadau trosiannol i gyflwyno'r newid yn raddol – ac unrhyw fecanweithiau apelio ychwanegol fel y nodwyd uchod.

## 7. Cynnwys cyffuriau (ac eithrio meddyginiaethau trwyddedig a meddyginiaethau didrwydded) â phris ad-dalu yn Rhan VIII

7.1 Ychydig iawn o gyffuriau nad ydynt yn feddyginiaethau sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd â phris ad-dalu yn Rhan VIIIA o'r Tariff Cyffuriau. Gan fod cost y rhan fwyaf o'r cynhyrchion hyn yn cael ei had-dalu ar hyn o bryd o dan drefniadau y tu allan i Ran VIII, h.y. pris rhestr y cyflenwr (gwneuthurwr neu gyfanwerthwr), bydd contractwyr fferylliaeth yn prynu cynhyrchion sydd â'r disgownt mwyaf yn hytrach na'r cyffur sydd â'r pris isaf yn y rhestr. O ganlyniad, mae'r GIG yn talu mwy am y cynhyrchion hyn nag y dylai.

**Ein cynnig**

I fynd i'r afael â'r broblem a amlinellir uchod, rydym yn cynnig cynnwys mwy o "gyffuriau" nad ydynt yn feddyginiaethau â phris ad-dalu yn Rhan VIII.

Rydym yn cynnig dau ddewis gwahanol ar gyfer ad-dalu cost y cyffuriau penodol hyn:

**Dewis 1** – ar gyfer cyffuriau nad ydynt yn feddyginiaethau ond sydd i'w rhestru â phris ad-dalu yn y Tariff Cyffuriau, byddem yn pennu'r pris ad-dalu trwy ddefnyddio cyfartaledd wedi'i bwysoli o brisiau rhestr y cyflenwyr perthnasol fel y'i cyhoeddir yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d, gweler yr esboniad ym Mhennod 2). Byddai'r fasged prisiau yn adlewyrchu'r cynhyrchion yn dm+d a allai fod wedi'u cyflenwi i roi presgripsiwn generig ar gyfer y cynnyrch perthnasol.

**Dewis 2** - ar gyfer cyffuriau nad ydynt yn feddyginiaethau ond sydd i'w rhestru â phris ad-dalu yn y Tariff Cyffuriau, byddem yn pennu'r pris ad-dalu trwy ddefnyddio data gwerthiant gwirioneddol gan gyflenwyr. O ganlyniad, byddai angen cynnwys y cyffuriau perthnasol wrth gasglu gwybodaeth am werthu a phrynu gan wneuthurwyr a chyfanwerthwyr bob chwarter, yn y lle cyntaf fel cais ad-hoc bob chwarter o dan Ran Pedwar o Reoliadau Cynhyrchion y Gwasanaeth Iechyd (Darparu a Datgelu Gwybodaeth) 2018. Fodd bynnag, wedyn byddem yn ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau i gynnwys y meddyginiaethau hyn mewn trefniadau casglu bob chwarter yn debyg i'r trefniadau o dan Ran Tri o'r Rheoliadau.

**Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru**

7.2 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir ar y cynnig hwn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifyddu'r prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt yn feddyginiaethau ond sydd i'w rhestru am y tro cyntaf yn y

Tariff Cyffuriau, yn ogystal ag unrhyw drefniadau trosiannol i gyflwyno'r newid yn raddol - ac unrhyw fecanweithiau apelio ychwanegol fel y nodwyd uchod.

## 8. Newidiadau i'r broses o bennu prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIA

8.1 Os yw'r presgripsiwn wedi'i ysgrifennu'n generig ar gyfer cynnyrch nad yw wedi'i gynnwys yn Rhan VIIIA, bydd contractwyr fferylliaeth yn prynu cyffuriau sydd â'r disgownt mwyaf ac nid cyffuriau sydd â'r pris isaf yn y rhestr. Gan fod contractwyr fferylliaeth yn derbyn ad-daliad am bris rhestr eu cyflenwr, mae'r GIG yn talu mwy am y cynhyrchion hyn nag y dylai.

8.2 Oherwydd y gwahaniaeth rhwng ad-daliadau, mae'r swm sy'n cael ei dalu am gynhyrchion sydd yr un fath yn union mewn gwirionedd yn amrywio rhwng ac oddi mewn i fyrddau iechyd lleol.

8.3 Fel y nodwyd uchod, os yw presgripsiwn yn cael ei ysgrifennu ar sail brand, mae'n rhaid i'r contractwr fferylliaeth weinyddu fersiwn brand y cynnyrch, hyd yn oed pe bai dewisiadau amgen eraill ar gael os yw'r cynnyrch wedi'i bresgripsiynu ar sail brand.

**Ein cynnig**

Ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu prynu o un ffynhonnell, rydym yn seilio'r pris ad-dalu nad yw wedi'i gynnwys yn Rhan VIIIA ar gyfer presgripsiynau generig ar bris rhestr y gwneuthurwr fel y'i cyhoeddir yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d).

Ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu prynu o ffynonellau lluosog ar gyfer presgripsiynau generig, rydym yn seilio'r pris ad-dalu nad yw wedi'i gynnwys yn Rhan VIIIA ar brisiau cyfartalog wedi'u pwysoli cyflenwyr fel y'i cyhoeddir yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d). Cyhoeddir cyfartaledd wedi'i bwysoli prisiau rhestr y cyflenwr o'r mis blaenorol yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d) er mwyn darparu pris ad-dalu dangosol ar gyfer contractwyr fferylliaeth.

Ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu prynu o un ffynhonnell ac o ffynonellau lluosog ar gyfer presgripsiynau ar sail brand, y pris ad-dalu fydd pris rhestr y gwneuthurwr yn y Geiriadur o feddyginiaethau a dyfeisiau (dm+d).

### Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru

8.4 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynnig hwn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar gyfrifyddu'r prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIA. Byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifyddu'r prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIA, yn ogystal ag unrhyw drefniant trosiannol i gyflwyno'r newidiadau yn raddol.

## 9. Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer ad-dalu a chaffael meddyginiaethau didrwydded ('meddyginiaethau arbennig')

9.1 Mae’r trefniadau ad-dalu ar gyfer meddyginiaethau arbennig sydd wedi’u rhestru â phris ad-dalu yn Rhan VIIIB yn gweithio’n dda, ond ar hyn o bryd mae cwmpas Rhan VIIIB wedi’i gyfyngu i gynhyrchion dos nad ydynt yn soled wedi’u gweithgynhyrchu (e.e. mathau o hylif, eli a thrwyth). Mae 40 y cant o wariant ar feddyginiaethau arbennig yn prynu tabledi a chapsiwlau, ac mae’r rhan fwyaf yn cael eu mewnforio.

9.2 Ar gyfer meddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi’u cynnwys yn Rhan VIIIB, nid oes unrhyw gymhelliad i gontractwyr fferylliaeth brynu’r cynhyrchion rhataf posibl gan eu bod yn derbyn ad-daliad ar sail pris yr anfoneb (llai unrhyw ddisgownt neu ad-daliad). O ganlyniad, mae’r prisiau sy’n cael eu talu am y meddyginiaethau arbennig hyn yn amrywio’n sylweddol, ac mewn rhai achosion mae’n ymddangos bod contractwyr fferylliaeth wedi talu prisiau sy’n rhy uchel ac nad ydynt yn adlewyrchu’r gost o gynhyrchu’r feddyginiaeth arbennig.

**Ein cynnig**
I fynd i’r afael â’r broblem a amlinellir uchod, rydym yn cynnig, lle bynnag y bo modd, cynnwys tabledi a chapsiwlau â phris ad-dalu yn Rhan VIII o’r Tariff Cyffuriau. Mae cynhyrchwyr a chyfanwerthwyr eisoes yn darparu gwybodaeth am tua 100 o dabledi a chapsiwlau (sy’n gyfrifol am 95 y cant o’n gwariant ar gapsiwlau a thabledi arbennig).

Ar gyfer meddyginiaethau arbennig na allwn gyflwyno pris ad-dalu yn Rhan VIII ar eu cyfer, rydym yn gofyn am safbwyntiau ar bedwar ateb posibl:
1. Ei gwneud yn ofynnol i fferyllfeydd ofyn am dri dyfynbris ar gyfer meddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi’u cynnwys yn Rhan VIII ('dyfynbrisiau')
2. Sefydlu neu gaffael gwasanaeth cymeradwyo canolog ar gyfer meddyginiaethau nad ydynt wedi’u cynnwys yn Rhan VIII ('gwasanaeth cymeradwyo canolog')
3a Caffael cyflenwad canolog o feddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi’u cynnwys yn Rhan VIII cyn eu cyflenwi i fferyllfeydd ('cyflenwad canolog'); neu
3b Gaffael gwasanaeth sy’n prynu meddyginiaethau arbennig ar ran y GIG ('gwasanaethau caffael canolog')

**1. Dyfynbrisiau**
Byddem yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr fferylliaeth ofyn am dri dyfynbris a’u cyflwyno i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Byddai contractwyr fferylliaeth yn gallu adennill pris y dyfynbris rhataf, a byddent yn parhau i allu adennill y ffi SP o £20.

**2. Gwasanaeth cymeradwyo canolog**
Byddem yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr fferylliaeth ofyn am gymeradwyaeth y gwasanaeth cymeradwyo canolog ar gyfer pob dyfynbris am feddyginiaeth arbennig nad yw wedi’i chynnwys yn Rhan VIIIB. Bydd y gwasanaeth cymeradwyo canolog naill ai’n cymeradwyo neu’n gwrthod y dyfynbris wedyn. Os gwrthodir y dyfynbris, byddai’r gwasanaeth yn hysbysu’r contractwr fferylliaeth am yr hyn sy’n cael ei ystyried yn bris derbyniol. Rydym yn credu bod modd ymdrin â’r rhan fwyaf o ddyfynbrisiau yn gymharol hawdd ar sail prisiau prynu hanesyddol.

**3. Caffael**
Mae dau ddewis ar gael ar gyfer hyn:
a) cyflenwad canolog o feddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi’u cynnwys yn Rhan VIIIB

b) gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer feddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIB.

**3a Cyflenwad canolog**

Byddai Gwasanaethau Caffael GIG Cymru yn caffael y cyflenwad canolog o feddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIB ar gyfer fferyllfeydd. Galli hyn gynnwys un contract neu gontractau (rhanbarthol) lluosog, gan ddisgwyl y gallai'r contractwr sydd wedi ennill y contract fynd ati i is-gontractio rhywfaint o'r cyflenwad na allai ei ddarparu ei hun.

Byddai'n ofynnol i gontractwyr fferylliaeth gysylltu â'r gwasanaeth canolog ar gyfer pob presgripsiwn am feddyginiaeth arbennig. Wedyn, bydd y gwasanaeth cyflenwi canolog yn darparu'r feddyginiaeth arbennig i'r fferyllfa, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy is-gontractwr.

Ni fyddai contractwyr fferylliaeth yn derbyn ad-daliad, ond byddent yn parhau i dderbyn y ffi SP o £20.

**3b Gwasanaeth caffael cenedlaethol**

Byddai Gwasanaethau Caffael GIG Cymru yn caffael gwasanaeth caffael canolog ar gyfer meddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIB. Byddai'r contract yn ymwneud â gwasanaeth sy'n prynu meddyginiaethau arbennig am y pris rhataf posibl trwy eu prynu ledled y diwydiant (ond nid yw'r gwasanaeth yn cyflenwi nac yn talu yn uniongyrchol am y feddyginiaeth arbennig). Wedyn, byddai byrddau iechyd lleol yn talu'r cwmni sy'n cyflenwi'r feddyginiaeth arbennig yn uniongyrchol.

Byddai'n ofynnol i gontractwyr fferylliaeth gysylltu â'r gwasanaeth canolog ar gyfer pob presgripsiwn am feddyginiaeth arbennig. Wedyn, byddai'r gwasanaeth cyflenwi canolog yn chwilio am y cyflenwr rhataf i ddarparu'r feddyginiaeth arbennig i'r fferyllfa.

Ni fyddai contractwyr fferylliaeth yn derbyn ad-daliad, ond byddent yn parhau i dderbyn y ffi SP o £20.

**<u>Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru</u>**

9.3 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynnig hwn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer cyfrifyddu'r prisiau ad-dalu ar gyfer tabledi a chapsiwlau y gallwn gynnwys pris ad-dalu ar eu cyfer yn y Tariff Cyffuriau.

Hefyd, byddwn yn gweithio'n agos gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru i weithredu'r ateb ar gyfer meddyginiaethau arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIII.

## 10 Newidiadau i ad-dalu costau cyfarpar a chyffuriau sydd wedi'u presgripsiynu'n generig a'u gweinyddu fel cyfarpar a chyffuriau 'arbennig'

10.1 Os yw cynnyrch wedi'i restru fel cyfarpar yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau, ni ellir ei ystyried yn feddyginiaeth hefyd.

10.2 Mae'r gost o weinyddu meddyginiaeth arbennig yn uwch o lawer na'r gost o weinyddu cyfarpar neu gyffur. Yn gyffredinol, mae meddyginiaethau arbennig yn

ddrutach na chyfarpar a chyffuriau, ac yn ogystal, mae contractwyr fferylliaeth yn derbyn ffi o £20 bob tro y maent yn gweinyddu meddyginiaeth arbennig. Bob tro y mae contractwr fferylliaeth yn dewis gweinyddu meddyginiaeth arbennig os oes dewisiadau eraill ar gael, mae'n arwain at gost i'r GIG oherwydd ei fod yn talu mwy na phe bai'r contractwr fferylliaeth wedi gweinyddu cyfarpar neu gyffur. Mae hyn yn golygu nad yw'r GIG yn cael gwerth am arian o'i wariant ar y cynhyrchion hyn.

**Ein cynnig**

I fynd i'r afael â'r broblem a amlinellir uchod rydym yn cynnig y dylai contractwyr fferylliaeth dderbyn ad-daliad am bris y cyfarpar yn Rhan IX o'r Tariff Cyffuriau ar gyfer presgripsiwn generig y gellir ei gyflawni trwy gyfarpar neu feddyginiaeth arbennig, waeth a ydynt wedi gweinyddu cyfarpar neu feddyginiaeth arbennig.

Hefyd, rydym yn cynnig y dylai contractwyr fferylliaeth, wrth ymateb i bresgripsiwn generig y gellir ei gyflawni trwy gyffur (cynnyrch nad yw'n feddyginiaeth sydd wedi'i bresgripsiynu at ddibenion meddygol) neu trwy feddyginiaeth arbennig, waeth a ydynt wedi gweinyddu'r cyffur neu'r feddyginiaeth arbennig ai peidio, dderbyn ad-daliad am bris y cyffur yn Rhan VIII neu, os nad oes pris ad-dalu yn Rhan VIII, dylent dderbyn ad-daliad o dan y trefniadau ad-dalu newydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIII ar gyfer cyffuriau (h.y. prisiau rhestr cyfartalog wedi'u pwysoli cyflenwyr fel y'u cyhoeddir ar dm+d neu bris rhestr y gwneuthurwr yn unol â rhestr dm+d). Nid yw'r cynnig hwn yn amharu ar ryddid clinigol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gan y bydd modd iddynt nodi yn y presgripsiwn o hyd bod angen meddyginiaeth arbennig ar gyfer y claf. Fodd bynnag, mae'n sicrhau tryloywder ynglŷn ag ad-dalu mewn sefyllfaoedd lle mae'r ddau fath o gynnyrch ar gael ar y farchnad.

**<u>Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru</u>**

10.3 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynigion hyn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar y fethodoleg fanwl ar gyfer gweithredu'r cynigion hyn.

## 11 Newidiadau i'r raddfa didynnu i adlewyrchu lefelau disgownt gwahanol ar gyfer meddyginiaeth â brand a meddyginiaeth generig

11.1 Rydym yn gwybod trwy wybodaeth gan gontractwyr fferylliaeth fel rhan o'r arolwg o'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu nad yw meddyginiaethau brand yn denu cymaint o ddisgownt â meddyginiaethau generig. Ar gyfartaledd, mae contractwyr fferylliaeth yn colli arian wrth weinyddu meddyginiaethau brand. Ar hyn o bryd, fel y nodwyd uchod, nid yw'r raddfa didynnu yn ystyried a yw contractwr fferylliaeth yn gweinyddu meddyginiaethau brand neu generig. O ganlyniad, nid oes gan gontractwyr fferylliaeth sy'n gweinyddu mwy o feddyginiaethau brand na'r cyfartaledd fynediad cyfartal i'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu. Hefyd, nid yw byrddau iechyd mewn ardaloedd sy'n presgripsiynu mwy o feddyginiaethau brand yn talu cyfran deg o'r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaeth a'r pris ad-dalu.

**Ein cynnig**

I fynd i’r afael â’r broblem a amlinellir uchod, rydym yn cynnig rhannu’r raddfa didynnu yn ddwy raddfa ar wahân, y naill ar gyfer meddyginiaethau generig a’r llall ar gyfer meddyginiaethau brand. Ar gyfartaledd, bydd hyn yn gwella mynediad cyfartal i’r gwahaniaeth rhwng pris prynu meddyginiaethau a’r pris ad-dalu ar gyfer fferyllfeydd cymunedol gan wella dosraniad y raddfa didynnu ar gyfer byrddau iechyd.

## Gwaith dilynol gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru

11.2 Yn amodol ar y safbwyntiau a fynegir am y cynigion hyn, byddwn yn ymgynghori â Fferylliaeth Gymunedol Cymru ar fanylion y newidiadau arfaethedig i’r raddfa didynnu a sut i’w gweithredu.

# Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

**Eich enw:**

**Sefydliad (os yn berthnasol):**

**E-bost/rhif ffôn:**

**Eich cyfeiriad:**

## Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu ar gyfer meddyginiaethau generig yng Nghategori A

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐
**Cwestiwn 2:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

**Newidiadau i'r broses o benderfynu prisiau ad-dalu meddyginiaethau yng Nghategori C sy'n cael eu presgripsiynu'n generig ond sydd â chyflenwyr lluosog**

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐
**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n ffafrio dewis 1 neu ddewis 2?
**Cwestiwn 5:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

**Cynnwys cyffuriau (ac eithrio meddyginiaethau trwyddedig a meddyginiaethau didrwydded) â phris ad-dalu yn Rhan VIII**

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐
**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n ffafrio dewis 1 neu ddewis 2?
**Cwestiwn 8:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

**Newidiadau i'r broses o bennu prisiau ad-dalu ar gyfer cyffuriau nad ydynt wedi'u cynnwys yn Rhan VIIIA**

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐
**Cwestiwn 10:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

**<u>Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer ad-dalu a chaffael meddyginiaethau didrwydded ('meddyginiaethau arbennig')</u>**

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys tabledi a chapsiwlau â phris ad-dalu yn Rhan VIII o'r Tariff Cyffuriau?
**Cwestiwn 12:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y cynnig i gynnwys tabledi a chapsiwlau â phris ad-dalu yn Rhan VIII o'r Tariff Cyffuriau?
**Cwestiwn 13:** Pa ddewis ydych chi'n ei ffafrio ar gyfer caffael ac ad-dalu pris meddyginiaethau arbennig nad oes modd eu rhestru â phris ad-dalu yn Rhan VIII o'r Tariff Cyffuriau?
**Cwestiwn 14:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y dewisiadau a/neu ydych chi'n meddwl bod angen ystyried dewisiadau ychwanegol?

**Newidiadau i ad-dalu costau cyfarpar a chyffuriau sydd wedi'u presgripsiynu'n generig a'u gweinyddu fel cyfarpar a chyffuriau 'arbennig'**

**Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐

**Cwestiwn 16:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

**Newidiadau i'r raddfa didynnu i adlewyrchu lefelau disgownt gwahanol ar gyfer meddyginiaeth brand a meddyginiaeth generig**

**Cwestiwn 17:** Ydych chi'n cytuno â'r diwygiad arfaethedig? **Ydw** ☐ **Nag ydw** ☐

**Cwestiwn 18:** Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ar y diwygiad arfaethedig?

## **Yr Iaith Gymraeg**

**Cwestiwn 20**: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 21**: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 22**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Nodwch eich sylwadau yma:

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:**